# Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Cymru fodern

Ann Kempster, Dafydd Vaughan,
Jo Carter a Nia Campbell

# Cyfnod hollbwysig i Gymru.

Gydag etholiadau Senedd 2026 ar y gorwel, nawr yw'r amser i ailystyried sut y gall ein gwasanaethau cyhoeddus wasanaethu pobl yn well, cryfhau ein heconomi, amddiffyn ein hamgylchedd a sicrhau ein dyfodol.

Mae gan Gymru y potensial i fod ar flaen y gad o ran gwasanaethau cyhoeddus modern, sy’n canolbwyntio ar bobl. Ein maint yw ein cryfder - gallwn fod yn hyblyg, yn ymatebol ac yn arloesol mewn ffyrdd sy’n amhosib i genhedloedd mwy o faint.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r heriau sy'n wynebu llywodraeth nesaf Cymru, ffordd well o gyflawni newid ac argymhellion ar gyfer sut i fwrw ymlaen.

# Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Cymru fodern

Ein gwefan gyda rhagor o wybodaeth i gefnogi'r llyfryn hwn:

**trawsnewid.cymru**

Cyhoeddwyd gan Trawsnewid Cymru:
Ann Kempster, Dafydd Vaughan, Jo Carter a Nia Campbell

Hawlfraint testun © 2025 Trawsnewid Cymru
Golygwyd gan Nia Campbell
Anfonwch adborth i book@transform.wales

Mae hawl Ann Kempster, Dafydd Vaughan, Jo Carter a Nia Campbell i gael eu hadnabod fel awduron y gwaith hwn wedi'i datgan ganddynt yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, trosglwyddo na storio unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull, heb ganiatâd ysgrifenedig gan Trawsffurfio Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Heriau cyfredol | 8 |
| Ffordd well | 12 |
| Pam mae hyn yn bwysig | 22 |
| Sut i gyrraedd yno | 26 |
| Gwireddu hyn | 42 |
| Galwad i weithredu | 50 |
| Darllen pellach | 52 |
| Ynglŷn â'r awduron | 56 |

# Cyflwyniad

Yn 2026, bydd Cymru yn ethol Senedd newydd – un fwy o faint a fydd, am y tro cyntaf, wedi'i dewis yn gyfan gwbl drwy gynrychiolaeth gyfrannol.

Mae'n annhebygol y bydd un blaid yn ennill digon o seddi i ffurfio llywodraeth â mwyafrif ar ei phen ei hun. I ba bynnag bleidiau sy'n ffurfio clymblaid, dyma gyfle felly i ailddychmygu sut y gall ein gwasanaethau cyhoeddus wasanaethu pobl yn well, cryfhau ein heconomi, amddiffyn yr amgylchedd a diogelu ein dyfodol.

Bydd y llywodraeth nesaf yn etifeddu heriau anodd: rhestrau aros hir y GIG, pwysau i dyfu'r economi, targedau sero net heriol, tlodi plant cynyddol, adeiladu tai. Bydd angen iddi gyflawni gwelliannau gweladwy i bobl, a hynny'n gyflym - ond mae hyn yn cael ei wneud yn anodd gan ffyrdd o weithio ar wahân, gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n wael, a chyflawni araf. Mae'r Adolygiad Gwariant diweddar yn ei gwneud yn glir: bydd lefelau cyllid yn mynd i lawr, nid i fyny. Mae dewisiadau anodd o'n blaenau.

Ers gormod o amser, rydym wedi dibynnu ar atebion tymor byr i gadw gwasanaethau hanfodol i fynd.

Ychydig bach mwy o arian yn y fan hyn. Peth aildrefnu fan draw. Ond nid yw hyn yn ddigon i ymdrin â'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu.

Rydym yn cadw'r un bobl mewn swyddi pwysig ac yn cau'r drws ar dalent newydd ym maes arweinyddiaeth. Rydym yn defnyddio'r un hen ddulliau o ddylunio a darparu gwasanaethau - gan ailadrodd yr un camgymeriadau dro ar ôl tro.

Mae'n bryd torri cylch o reoli argyfwng. Mae angen i ni gynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae hynny'n golygu ailystyried sut mae llywodraeth yn gweithio – nid yn unig beth mae'n ei gyflawni, ond sut.

Wrth i ddatganoli roi mwy o rym i Gymru, nid ydym wedi cynyddu ein gallu i gyflawni'r newid pwysig hwnnw. Rhaid inni nawr adeiladu gallu'r wladwriaeth i reoli er mwyn creu Cymru fwy bywiog, llwyddiannus a llewyrchus.

# Mae angen dull digidol arnom

Nid technoleg yn unig yw dull digidol. Mae'n ymwneud hefyd â sut rydym yn dylunio, yn darparu ac yn cynnal gwasanaethau. Wedi'i wneud yn dda, gall drawsnewid sut mae newid gwirioneddol yn cael ei wireddu.

Yn hytrach na dechrau gyda'r hyn y mae bwrdd iechyd neu asiantaeth lywodraethol yn credu sydd ei angen ar bobl, mae dull digidol yn dechrau drwy ymchwilio a deall anghenion go iawn – bod wrth wraidd bywydau pobl a chymunedau ledled Cymru.

**Diffiniad o ddigidol:**
Cymhwyso diwylliant, prosesau, modelau busnes a thechnolegau oes y rhyngrwyd i ymateb i uwch ddisgwyliadau pobl.

*- Tom Loosemore, 2017*
*definitionofdigital.com*

Mae'n golygu gweithio mewn timau bach, rhai traws-swyddogaethol. Profi syniadau bach yn gynnar. Dysgu beth sy'n gweithio. Profi beth sy'n helpu. Mae'n golygu canolbwyntio ar ganlyniadau gwirioneddol, nid allbynnau – a bod yn agored ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim.

Mae'r dull hwn yn helpu llywodraeth i ganfod problemau'n gynharach a'u datrys yn gyflymach. Mae'n lleihau gwastraff. Mae'n adeiladu gwasanaethau sy'n symlach, yn gyflymach, ac yn fwy cynhwysol.

O'i wneud yn iawn, mae dull digidol yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wneud mwy gyda llai – ac yn meithrin ymddiriedaeth ar hyd y ffordd.

# Ein gweledigaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu strategaeth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus Cymru, nid yn unig i ddiwallu gofynion brys y presennol ond i gyflawni gweledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gallwn sicrhau Cymru ffyniannus, wydn, sy'n iachach ac yn fwy cyfartal ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r dewis i lywodraeth nesaf Cymru yn un mawr: parhau ag atebion tymor byr a rhwystredigaethau etifeddol, neu ymrwymo i drawsnewidiad gwirioneddol. Trawsnewidiad sy'n dwyn ynghyd gyrff hyd braich, llywodraeth leol a'r GIG i gyflawni dros Gymru.

# Nid technoleg yw dull digidol.

# Mae'n ymwneud â ailfeddwl sut rydym yn dylunio, yn darparu ac yn cynnal gwasanaethau.

# Heriau cyfredol

# Mae'r ffordd rydym yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi torri.

Ers dros ddegawd, rydym wedi methu â chynyddu ein capasiti gwladwriaethol wrth i wasanaethau cyhoeddus Cymru wynebu pwysau cynyddol: galw cynyddol ochr yn ochr â llai o gyllid. Mae angen mwy ar bobl - ac maen nhw'n disgwyl mwy... ond mae gwasanaethau cyhoeddus wedi methu â chadw i fyny.

Mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd cadw gwasanaethau hanfodol i fynd. Mae 22 awdurdod lleol Cymru yn aml yn gweithio ar wahân, yn wynebu tanariannu cronig, ac yn dibynnu ar fodelau cyflawni hen ffasiwn. Mae rhaglenni technoleg drudfawr yn cymryd blynyddoedd i'w gwireddu- a phur anaml y maent yn cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen ar bobl.

Mae'r GIG yn ei chael hi'n anodd cydbwyso cyllidebau, lleihau amseroedd aros, ac ymdopi â chiwiau hir yn yr Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar ei hôl hi – nid yn unig o'i gymharu â Lloegr, ond o'i gymharu â gwledydd eraill fel Estonia, Canada, a gwledydd y Caribî sy'n arwain y ffordd o ran diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Ers blynyddoedd rydym wedi dibynnu ar atebion tymor byr i gadw gwasanaethau hanfodol i fynd. Ychydig mwy o arian fan hyn, peth ad-drefnu fan draw. Ond nid yw'n ddigon. Heb hwb mawr i ysgogi diwygio systemig, dim ond gwaethygu problemau y mae'r dull dameidiog hwn yn ei wneud mewn gwirionedd.

Rydyn ni'n sownd mewn cylch dieflig, lle mae angen mwy a mwy o ymdrech i sefyll yn llonydd.

A nawr, mae'r Adolygiad Gwariant diweddaraf yn gwneud i bethau edrych yn anoddach fyth. Mae dewisiadau mawr ar y gorwel.

Mae'n bryd symud y tu hwnt i reoli argyfwng a dechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Allwn ni ddim fforddio aros 5 mlynedd arall.

# Nid yw'r hen ffyrdd yn gweithio.

Ers blynyddoedd, mae'r llywodraeth wedi troi at dechnoleg i wneud gwasanaethau'n fwy effeithlon.

Er bod technoleg wedi newid yn aruthrol yn ystod y 25 mlynedd o ddatganoli yng Nghymru, nid yw'r ffordd rydym yn cyflawni wedi newid.

Mae Cymru'n dibynnu gormod ar gyflenwyr TG mawr – sydd yn aml wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, ac yn dal i ddefnyddio dulliau cyflawni hen ffasiwn. Mae'r dulliau hyn yn dibynnu ar fisoedd o gynllunio ymlaen llaw, llywodraethu trwm sy'n arafu pethau heb ychwanegu gwerth, a chylchoedd caffael hir sy'n aml yn methu. Hyd yn oed pan fydd prosiectau'n lansio flynyddoedd yn ddiweddarach, maent fel arfer yn hen ffasiwn, wedi mynd dros y gyllideb, ac yn wastraff arian cyhoeddus.

Mae hyn yn ein hatal rhag defnyddio ffyrdd mwy modern ac effeithiol o weithio - gan sicrhau gwerth, a hynny'n gyflym.

*Rydym yn dibynnu ar addewidion gwag ar ffurf 'atebion cyflym' fel Deallusrwydd Artiffisial ac yn tybio y byddant yn ein cael ni allan o dwll.*

Mae polisi yn dal i gael ei lunio heb ddeall y ddarpariaeth. Mae technoleg yn dal i gael ei phrynu heb feddwl am ddefnyddwyr. Mae rhaglenni mawr yn addo popeth – yna'n cyflawni'n rhy hwyr, neu ddim o gwbl.

Rydyn ni wedi dylunio o amgylch y dechnoleg - nid er budd pobl, ac mae'n hynny'n dangos. Rydym yn parhau i roi technoleg a pholisi yn gyntaf - a phrofiad yn olaf. Rydym yn camgymryd cynhyrchion digidol am drawsnewid digidol. Rydym yn dibynnu ar addewidion gwag ar ffurf 'atebion cyflym' fel Deallusrwydd Artiffisial - ac yn tybio y byddant yn ein cael ni allan o dwll.

A chyda sefydliadau i gyd yn ceisio datrys yr un problemau ar eu pen eu hunain – o ofal cymdeithasol i dai – rydym yn gwastraffu arian, amser ac ymdrech. Gellid gwneud pethau'n well wrth gydweithio.

Nid dim ond offer gwell sydd ei angen - ond ffyrdd gwell o weithio.

Mae hynny'n golygu dechrau gydag anghenion pobl. Profi a dysgu, nid dyfalu a lansio. Ac adeiladu yn agored, gyda thimau sy'n gallu addasu wrth fynd.

Mae'r gwir gyfle yn gorwedd yn y ffordd rydym yn gweithio - nid yr hyn rydym yn ei greu.

# Mae arfer da yn bodoli, ond nid dyna'r safon arferol.

Nid yw Cymru'n brin o dalent na syniadau da.

Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) wedi profi gwahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys symudiad cadarnhaol tuag at ddylunio gwasanaethau dwyieithog gwell drwy gydweithio agosach rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Ochr yn ochr â hyn, mae sefydliadau eraill wedi dangos beth sy'n bosibl. Mae Chwaraeon Cymru wedi ailgynllunio ei wasanaeth grantiau cymunedol i fod yn fwy cynhwysol. Gwnaeth Awdurdod Cyllid Cymru brototeipio polisi yn agored. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu ac yn dysgu'n agored. Mae cynghorau yng Ngwent yn ffurfio uned ddigidol a rennir i rannu adnoddau a dysgu, a lleihau dyblygu.

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn hyrwyddo ac yn gorfodi'r dulliau modern hyn ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer llywodraeth leol a'r GIG.

Ond maen nhw ar raddfa fach, yn dameidiog, ac ymhell o fod yn safonol. Mae cynnydd yn rhy araf.

Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru wedi dod i stop.

Mae'r llywodraeth nesaf yn gyfle i wneud pethau'n wahanol, a'u gwneud yn well.

# Ffordd well

Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Cymru fodern

# Nid yw mwy a mwy o arian yn ateb.

Os yw Cymru eisiau ymateb i’r her o wella gwasanaethau cyhoeddus, mae’n rhaid i ni newid sut rydym yn eu cynllunio a’u darparu.

Mae hynny'n golygu rhoi pobl yn gyntaf, mabwysiadu ffyrdd modern ac agored o weithio, gan ddefnyddio'r arferion digidol gorau i adeiladu gwasanaethau sy'n syml, yn effeithlon, ac wedi'u cynllunio o amgylch anghenion bywyd go iawn.

## Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

1. **Dechrau gyda phobl, nid datrysiadau**
2. **Trefnu o amgylch timau amlddisgyblaethol**
3. **Profi, dysgu ac addasu**
4. **Gweithio yn agored**
5. **Perchenogi ac adeiladu'r seilwaith digidol**

# 1. Dechrau gyda phobl, nid datrysiadau

Cyn dylunio polisi neu weithredu technoleg, mae angen inni ddeall y broblem – a'r bobl sy'n cael eu heffeithio ganddi.

Mae hynny'n golygu mynd i lygad y ffynnon. Yn hytrach na dibynnu ar ragdybiaethau ac arolygon, mae angen i ni:

- arsylwi ymddygiadau go iawn
- mapio teithiau gwasanaeth llawn o'r dechrau i'r diwedd
- deall anghenion ac amcanion pobl, a'r cyd-destun o'u cwmpas

Mae hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ar ganlyniadau, nid atebion sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw. Dyma sut rydym yn dylunio gwasanaethau sy'n gweithio ar draws ffiniau sefydliadol, yn lleihau cymhlethdod y gellir ei osgoi, ac yn lleihau gwallau costus.

Drwy ddeall bywydau cymhleth pobl Cymru yn iawn, gallwn ddylunio gwasanaethau sy'n pontio'r cynigion tameidiog ar draws awdurdodau lleol, llywodraeth ganolog a'r GIG.

Mae hyn yn osgoi gwastraffu amser ac arian yn dylunio neu'n adeiladu atebion nad ydynt yn cael eu defnyddio – neu'n waeth, yn creu problemau mwy yn y pen draw.

Drwy ddylunio gwasanaethau o amgylch anghenion defnyddwyr, gall staff ganolbwyntio eu hymdrechion lle bydd hynny'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

# 2. Trefnu o amgylch timau amlddisgyblaethol

Nid yw trawsnewidiad yn digwydd mewn dogfennau na chynlluniau – mae'n digwydd mewn timau.

Mae cyflawni digidol llwyddiannus yn dibynnu ar dimau bach, amlddisgyblaethol sy'n dwyn ynghyd:

- dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr
- dealltwriaeth o bolisi a gwaith
- llywodraethu gwybodaeth, mewnwelediad caffael a chyfreithiol
- meddalwedd a seilwaith modern, ar arbenigedd cysylltiedig

Y timau hyn yw'r uned gyflawni. Maent yn gweithio drwy iteru, hynny yw ailadrodd ac ymateb, drwy ddysgu'n gyflym, a chan addasu i newid. Maen nhw wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau drwy gydol oes y gwasanaeth – ac yn atebol am ganlyniadau, nid dim ond allbynnau.

Mae'r dull hwn yn herio'r gweithio ar wahân, o'r brig i lawr, sy'n arferol yn y sector cyhoeddus. Mae'n helpu timau i weithio'n gyflymach ac yn fwy effeithlon drwy gael gwared ar rwystrau a chreu dealltwriaeth gyffredin.

Wrth i anghenion y gwasanaeth esblygu, felly hefyd y tîm. Ond mae'r buddsoddiad mewn pobl, gwybodaeth ac ymddiriedaeth yn parhau – gan gefnogi cynnydd hirdymor.

# 3. Profi, dysgu ac addasu

Mae gwasanaethau'r llywodraeth yn gymhleth. Nid yw pobl bob amser yn ymddwyn fel y disgwylir - mae bywyd yn flêr, ac mae blaenoriaethau'n newid.

Dyna pam mae dull profi a dysgu yn bwysig. Yn lle blynyddoedd o gasglu gofynion, caffael, a chreu atebion rhy fawr sy'n cyrraedd yn hwyr, sy'n mynd dros y gyllideb, neu sydd ddim yn cyrraedd o gwbl - mae timau'n dechrau'n fach.

Maent yn canolbwyntio ar yr anghenion mwyaf, yn profi rhagdybiaethau peryglus, ac yn cyflawni gwelliannau mewn camau bach. Mae hyn yn lleihau costau ac ansicrwydd wrth fynd, gan ryddhau gwerth yn gyflym i'r cyhoedd.

Mae'r dull hwn:

- yn amlygu 'pwyntiau poen' yn gynnar
- yn lleihau'r risgiau o ran cyflawni a chostau

- yn osgoi methiannau drudfawr
- yn darparu gwell gwerth am arian dros amser

Mae hyn i gyd yn meithrin ymddiriedaeth a hyder dros amser, i ddefnyddwyr a'r llywodraeth fel ei gilydd.

## 4. Gweithio yn agored

Mae gweithio yn yr awyr agored yn golygu dangos eich gwaith wrth iddo ddigwydd.

Mae hyn yn cynnwys:

- rhannu diweddariadau'n rheolaidd
- cyhoeddi ymchwil a phrototeipiau cynnar
- bod yn onest ynglŷn â beth sy'n gweithio a beth sydd ddim

Mae agoredrwydd yn meithrin ymddiriedaeth gyda defnyddwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni. Mae'n gwella llywodraethu, yn gwneud dibyniaethau'n weladwy, ac yn helpu i gynnal gwybodaeth ar draws timau.

Mae hefyd yn creu momentwm ar gyfer ysgogi newid. Po fwyaf y gall pobl weld y stori, y mwyaf y gallant ei chefnogi a pharhau â'r gwaith.

## 5. Perchenogi ac adeiladu'r seilwaith digidol

Heddiw, gall timau sefydlu seilwaith mewn eiliadau, adeiladu prototeipiau mewn munudau, a chyfuno offer profedig i greu gwasanaethau cymhleth mewn wythnosau.

Ac eto yng Nghymru, rydym yn dal i ddibynnu gormod ar allanoli ac ar gwmnïau technoleg mawr o dramor, gan, yn aml, roi ein holl wasanaethau allweddol gyda dim ond un cyflenwr. Mae hynny'n beryglus: gall prisiau godi, gellir diffodd gwasanaethau heb rybudd, a bydd ein systemau pwysicaf yn dod yn fwy agored i ymosodiadau seiber difrifol.

## Ffordd well

Y dewis arall yw adeiladu gyda Seilwaith Cyhoeddus Digidol modern ac offer ffynhonnell agored. Blociau adeiladu y gellir eu hailddefnyddio yw'r rhain a gynlluniwyd ar gyfer defnyddioldeb, hygyrchedd a graddfa. Er enghraifft:

- GOV.UK 'Notify' a 'Pay'
- Pecyn Prototeipio'r GIG
- Y Llwyfan Hunaniaeth Ffynhonnell Agored Modiwlaidd (MOSIP, sef 'Modular Open Source Identity Platform')
- OpenEyes (cofnod claf electronig ar gyfer Opthalmoleg)
- OpenFn (platfform awtomeiddio llif gwaith)

Mae symud o brynu i adeiladu yn gofyn am sgiliau modern fel peirianneg cwmwl, trefniadaeth seilwaith a datblygu meddalwedd. Ond mae'n talu ar ei ganfed. Mae'n rhoi mwy o reolaeth i wasanaethau cyhoeddus, yn lleihau sefyllfaoedd gwastraffus o fod yn sownd gyda darparwr, ac yn creu cyfleoedd i gyflenwyr llai, mwy ystwyth – gan gynnwys cwmnïau o Gymru – gyfrannu.

Gall agor y ddarpariaeth technoleg gwasanaethau cyhoeddus chwarae rhan gref yn y broses o dyfu economi Cymru, cadw talent yng Nghymru a manteisio ar ein prifysgolion, ein clwstwr seiber cryf, a'n sector fintech bywiog.

Mae adeiladu gyda Seilwaith Cyhoeddus Digidol yn helpu llywodraethau i symud yn gyflymach, parhau i wario'n lleol, ac aros yn wydn ac yn sofran wrth fodloni disgwyliadau pobl.

# Nid yw hyn yn newydd.

Nid yw’n radical. Bellach, y dulliau hyn yw'r safon yn y sefydliadau mwyaf effeithiol, boed yn gyhoeddus neu’n breifat.

Yn y Deyrnas Unedig, codeiddiodd Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) y ffyrdd hyn o weithio dros ddegawd yn ôl. Ers hynny, mae gwasanaethau mawr fel Adnewyddu Pasbort, Cofrestru i Bleidleisio, a gwneud cais am Atwrneiaeth Barhaus wedi cael eu trawsnewid gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn.

Maent wedi dod yn arfer cyffredin ledled y byd: yng Nghanada, Awstralia, Seland Newydd, yr Unol Daleithiau a thu hwnt.

Yng Nghymru, cyflwynodd yr adroddiad System Reboot yr achos dros ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus digidol yn 2018. Roedd yn galw am:

- wasanaethau wedi'u cynllunio o amgylch anghenion defnyddwyr
- timau bach, grymus a all greu, ailadrodd a gwella’n gyflym
- ffyrdd agored o weithio i feithrin ymddiriedaeth ac atebolrwydd

Arweiniodd System Reboot at greu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) a Safon Gwasanaeth Digidol Cymru.

Mae cynnydd wedi'i wneud. Ond nid yw graddfa a chyflymder y newid yn agos at yr hyn sydd ei angen, o hyd.

Er bod System Reboot a CDPS wedi gosod sylfeini cryf, mae rhwystrau diwylliannol a systemig mawr wedi arafu newid gwirioneddol. Mae llawer o sefydliadau'n defnyddio'r iaith gywir, ond nid yw'r newidiadau dyfnach mewn meddylfryd ac arfer wedi digwydd. Mae hyn yn golygu ein bod yn sownd gydag atebion tymor byr yn hytrach na thrawsnewid tymor hir.

Credwn y dylai llywodraeth nesaf Cymru wneud symudiad clir oddi wrth raglenni a phrosiectau tuag at dimau a gwasanaethau. Mae hyn yn gyfle i:

- ddarparu canlyniadau gwell i bobl
- lleihau cost a risg
- ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y llywodraeth

# Nodyn ar Ddeallusrwydd Artiffisial (AI).

Rydym wedi osgoi canolbwyntio ar ddeallusrwydd artiffisial (AI) yn yr adroddiad hwn - a hynny'n fwriadol.

Nid un dechnoleg yw AI, nac ateb syml i bopeth. Daw law yn llaw ag addewid, ond hefyd risg. Mae eisoes yn helpu meddygon i wneud diagnosis o ganser yn fwy effeithiol. Ond gall hefyd ategu rhagfarn a thuedd, gorganoli pŵer, ac achosi niwed go iawn os caiff ei ddefnyddio'n ddiofal.

Dyna pam mae'r dulliau yn yr adroddiad hwn yn bwysig.

Er mwyn defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffyrdd sy'n fuddiol i Gymru, bydd angen i'r llywodraeth:

- roi pobl wrth galon y broses
- grymuso timau amlddisgyblaethol
- profi, dysgu ac addasu
- gweithio yn agored
- dylunio ac adeiladu'r seilwaith digidol

Nid arferion cyflawni da yn unig yw'r rhain. Maent yn sylfeini hanfodol ar gyfer archwilio technolegau newydd yn gyfrifol, a llunio dyfodol gwell i bawb.

# Nid dim ond offer gwell sydd ei angen -

# ond ffyrdd gwell o weithio

# Pam mae hyn yn bwysig

# Nid yw gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi cadw i fyny.

Mae technoleg wedi trawsnewid sut rydym yn byw, yn gweithio ac yn cysylltu â'r byd.

Mae pobl yn disgwyl i wasanaethau cyhoeddus fod yn syml, yn gyflym, ac yn hawdd eu defnyddio – yn union fel popeth arall yn eu bywydau. Ond yn rhy aml, mae gwasanaethau'r llywodraeth yn araf, yn drwsgl, ac yn rhwystredig.

Pan fydd gwasanaethau'n edrych yn wael ac yn teimlo'n wael, mae ymddiriedaeth yn y llywodraeth yn cael ei erydu.

Mae angen dylunio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o amgylch y bobl a'r cymunedau sy'n eu defnyddio.

Nid technoleg yw'r unig ystyriaeth wrth foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus.

Mae hyn oll am sicrhau dyfodol Cymru.

Os gweithredwn ni nawr, gallwn ni adeiladu cenedl lle mae'r llywodraeth yn gweithio'n ddoethach, lle mae pobl yn ymddiried mewn gwasanaethau cyhoeddus, a lle mae busnesau a thalent yn ffynnu.

# Cymru gryfach, mwy dylanwadol.

Mae arwain drwy esiampl mewn trawsnewid digidol yn gwneud Cymru yn genedl flaengar ac uchelgeisiol y mae eraill yn edrych ati am ysbrydoliaeth.

Drwy wella sut mae'r llywodraeth yn gweithio, gallwn negodi â San Steffan o sefyllfa gref a chael ein cymryd o ddifrif ochr yn ochr â gwledydd digidol eraill.

# Economi ffyniannus a swyddi sydd wedi’u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae buddsoddi mewn sgiliau digidol ac arbenigedd yng Nghymru yn creu swyddi o ansawdd uchel ac yn gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i fyw a gweithio ynddo.

Mae tyfu a chefnogi busnesau, prifysgolion, colegau a thalent technoleg lleol yn sicrhau bod arian yn aros yng Nghymru, gan leihau dibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol drud.

Gallwn ddangos i'r byd ein bod yn genedl hyblyg, sy'n meddwl ymlaen, a rhoi rhywbeth i'r diaspora Cymreig fod yn gyffrous yn ei gylch.

# Gwasanaethau cyhoeddus sydd wir yn gweithio.

Mae ffyrdd modern o weithio sy'n canolbwyntio ar bobl yn arwain at wasanaethau cyflymach, tecach a mwy hygyrch – wedi'u cynllunio o amgylch anghenion gwirioneddol pobl, nid systemau hen ffasiwn.

Drwy gywiro sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu, gallwn leihau gwariant tymor byr, adweithiol a chanolbwyntio ar welliannau tymor hir sy'n fuddiol i gymunedau ledled Cymru.

Mae hyn bwysicaf mewn mannau fel llywodraeth leol a'r GIG, lle mae gwasanaethau o ddydd i ddydd yn llunio bywydau a lles pobl.

Mae dylunio gyda defnyddwyr o'r cychwyn cyntaf yn helpu i greu systemau cynhwysol sy'n cefnogi’r bobl sydd eu hangen fwyaf - yn hytrach na’u heithrio. Nid effeithlonrwydd yw’r unig ystyriaeth. Mae dylunio gyda defnyddwyr o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol ar gyfer adeiladu Cymru iachach, mwy cyfartal a llewyrchus, yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Llywodraeth sy'n ennill ymddiriedaeth.

Pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n dda, mae hyder yn y llywodraeth yn cynyddu oherwydd bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae hyn yn golygu cyflawni newidiadau amlwg a chadarnhaol i'w bywydau bob dydd – gwasanaethau sy'n amlwg yn gyflymach, yn symlach ac yn fwy effeithiol.

Mae gwariant tryloyw yn gwneud defnydd gwell o arian cyhoeddus, gan leihau gwastraff a gwneud penderfyniadau'n gliriach.

Drwy weithio’n agored a chan ailadrodd a gwella’n gyflym, bydd y llywodraeth yn meithrin y cyfranogiad, y cydweithio a’r meddwl hirdymor sy’n sail i egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, gan ailadeiladu ymddiriedaeth a sicrhau atebolrwydd.

# Sut i gyrraedd yno

# Mae gan Gymru y potensial i fod ar flaen y gad o ran gwasanaethau cyhoeddus modern, sy’n canolbwyntio ar bobl.

# Ond i gyrraedd yno rhaid inni weithredu'n bendant mewn tri phrif faes: arweinyddiaeth, sgiliau a chyllido.

1

## Arweinyddiaeth:
### Clir, beiddgar ac atebol

**Penodi Gweinidog dros Ddigidol** i arwain strategaeth genedlaethol weledigaethol, a bod yn atebol gan eirioli dros ddigidol ar y lefelau uchaf o lywodraeth.

**Sefydlu Uned Cyflawni Digidol genedlaethol i Gymru, dan arweiniad Prif Swyddog Digidol** sydd â'r awdurdod a'r gefnogaeth i arwain diwygio digidol, gan symud y ffocws o dechnoleg i ffyrdd o weithio sy'n gwella gwasanaethau.

**Arwain trwy esiampl**, gan ddangos dull radical newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus trwy wneud, profi a dysgu, a dod â thimau ynghyd ar draws y sector cyhoeddus.

## 2

## Pobl:
## Buddsoddi mewn sgiliau ac arbenigedd fodern

**Dod â sgiliau modern i'r sector cyhoeddus**, gan gynnwys ymchwil defnyddwyr, dylunio gwasanaethau, dylunio rhyngweithio, dylunio cynnwys a pheirianneg, gan ddefnyddio timau amlddisgyblaethol i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus.

**Buddsoddi mewn llwybrau gyrfa a strwythurau cyflog** i wneud Cymru yn lle deniadol i weithwyr proffesiynol digidol ac ymarferwyr dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

**Blaenoriaethu talent digidol a gwreiddio dealltwriaeth o arweinyddiaeth**, gan greu cenhedlaeth newydd o arweinwyr beiddgar, sy'n edrych i'r dyfodol, ac sy'n llythrennog yn ddigidol gyda sgiliau modern i yrru Cymru ymlaen.

## 3

## Cyllid:
## Ailddyfeisio mecanweithiau cyflenwi

**Ariannu timau nid prosiectau** - timau sy'n canolbwyntio ar gydweithio traws-sector, datrys problemau a rennir, a thrwsio'r seilwaith i wneud gwasanaethau'n gyflym, yn hawdd ac yn hyblyg i'w newid.

**Symleiddio a moderneiddio prosesau caffael** i'w gwneud hi'n haws i fusnesau bach dendro, defnyddio contractau hyblyg, a rhannu prosiectau mawr yn ddarnau llai sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

**Cyflwyno tryloywder radical** ar gyfer darpariaeth ddigidol i gynyddu ymddiriedaeth ac atebolrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus, dangos cyflawni parhaus, ac adeiladu economi ddigidol Cymru.

# Arweinyddiaeth glir, feiddgar ac atebol

1

Mae trawsnewid gwasanaeth cyhoeddus yn gofyn am arweinyddiaeth glir a beiddgar.

Arweinyddiaeth sy'n deall maint y newid sydd ei angen arnom, sy'n barod i herio - a chael ei herio. Arweinyddiaeth gyda'r weledigaeth, yr awdurdod, a'r dyfalbarhad i sbarduno newid parhaol.

Ar hyn o bryd, mae arweinyddiaeth yng Nghymru yn dameidiog. Mae pethau wedi'u rhannu rhwng nifer o weinidogion, tri Phrif Swyddog Digidol, a dau gorff 'cyflenwi' – y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).

Mae gan bob un flaenoriaethau, dulliau a strategaethau ar wahân.

Nid oes un ffigur atebol yn gosod cyfeiriad, yn hyrwyddo arfer da nac yn uno'r system y tu ôl i weledigaeth a rennir. Er enghraifft, yn GIG Cymru, ni all y Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol reoli na gosod cyfeiriad y ddarpariaeth ddigidol yn yr Adran Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol na byrddau iechyd unigol. Mae gan bob un ei strategaeth ddigidol a'i fframweithiau atebolrwydd ei hun.

Ar ben hyn, mae gan Gymru nifer sylweddol o fyrddau, pwyllgorau a fforymau llywodraethu. Er mai'r bwriad yw goruchwylio, maent yn aml yn troi'n siopau siarad. Maent yn amsugno amser ac adnoddau gwerthfawr heb wir gyflymu'r ddarpariaeth na meithrin ffyrdd newydd o feddwl, gan adlewyrchu diffyg dychymyg ehangach wrth fynd i'r afael â materion systemig.

# Dylai llywodraeth nesaf Cymru:

## A. Penodi Gweinidog dros Ddigidol

Mae angen hyrwyddwr ar y lefel uchaf i sicrhau trawsnewid. Rhywun a all eirioli dros ddull modern, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws y llywodraeth.

Dylai'r Gweinidog hwn:

- fod yn gyfrifol am strategaeth ddigidol genedlaethol feiddgar
- arwain newid diwylliannol yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni
- aros yn y swydd am dymor llawn y Senedd er mwyn sicrhau cysondeb

## B. Sefydlu Prif Swyddog Digidol cenedlaethol ac Uned Cyflawni Digidol i Gymru

Mae angen mwy nag un hyrwyddwr ar Gymru – mae angen tîm ymroddedig o arbenigwyr, dan arweiniad Prif Swyddog Digidol, a all gynrychioli a thrawsnewid y gwasanaeth cyhoeddus cyfan: Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff hyd braich, a'r GIG.

Dylai'r Prif Swyddog Digidol cenedlaethol i Gymru:

- fod ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan adrodd i'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Gweinidog dros Ddigidol
- bod yn arweinydd gweladwy a chydnabyddedig ym maes arloesi o ran gwasanaethau cyhoeddus digidol, a hynny'n genedlaethol ac yn fyd-eang
- meddu ar hanes llwyddiannus ym maes gwasanaethau digidol ar raddfa fawr (nid TG) a dealltwriaeth ddofn  o ffyrdd gweithio modern, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

- cael y grym i arwain trawsnewid ar draws y system – nid yn unig dylanwadu, ond gyrru a chyflawni newid yn weithredol
- bod yn Bennaeth Galwedigaeth ar gyfer digidol a thechnoleg ar draws y sector cyhoeddus cyfan

Dylai'r Uned Cyflawni Ddigidol weithredu fel canolfan arweinyddiaeth weladwy sy'n meithrin hyder, yn newid meddyliau, ac yn ysbrydoli timau ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, dylent ddarparu portffolio o wasanaethau effaith uchel i ddangos sut mae trawsnewid yn symud o drafodaeth i ganlyniadau pendant. Dylent gael mandad i ddod ag arweinyddiaeth ar draws sefydliadau ynghyd i ailgynllunio gwasanaethau trawsbynciol a chyflawni gwelliannau.

Dylent fod yn gyfrifol am adeiladu a chyflawni'r seilwaith cyhoeddus digidol sy'n cefnogi llywodraeth fodern. Yn y ddwy flynedd gyntaf dylent drawsnewid 3-5 o wasanaethau ar draws y llywodraeth, gan gynnwys:

- rheoli apwyntiadau ac atgofion ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol
- cofrestru, talu a rheoli’r dreth gyngor
- dod â budd-daliadau, hawliadau a thaliadau cymorth ynghyd ledled Cymru

Nid creu corff hyd braich arall yw hyn. Ond yn hytrach sefydlu uned yng nghanol y llywodraeth gyda'r awdurdod, y sgiliau a'r mandad i arwain newid ar draws y system gyfan.

## C. Arwain trwy esiampl

Rhaid i Lywodraeth Cymru fodelu'r dull y mae am i eraill ei fabwysiadu. Mae hyn yn golygu:

- grymuso timau i weithio yn agored a rhannu dysgu
- dathlu cyflawniad wrth fod yn onest am heriau
- cofleidio diwylliant profi a dysgu a dangos gwaith sydd ar y gweill

Mae'r math hwn o arweinyddiaeth yn helpu i ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd, ac yn dangos beth yw ‘da’ yn ymarferol.

# Buddsoddi mewn arbenigedd a sgiliau modern

2

Mae gwasanaethau cyhoeddus gwell yn dechrau gyda'r bobl gywir.

Mae gwasanaethau modern, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, angen sgiliau nad ydynt yn gyffredin ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru o hyd – yn enwedig ym maes ymchwil defnyddwyr, dylunio gwasanaethau, dylunio cynnwys, rheoli cyflawni a pheirianneg.

Er bod pocedi bach o'r sgiliau hyn, maent yn aml yn rhy fach, wedi'u dosbarthu'n anwastad, ac yn ddi-rym – mewn rolau is, heb y mandad i arwain newid.

Mae rhai sefydliadau a ddylai gael eu gyrru gan y sgiliau hyn – fel Iechyd a Gofal Digidol Cymru – yn brin ohonynt ar raddfa fawr ac ar lefel uwch.

Mae cyflog a datblygiad gyrfa ar gyfer rolau digidol yn anghystadleuol ac yn anghyson rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth yng Nghymru. Mae arbenigwyr digidol a data yn cael eu colli'n rheolaidd i rolau â chyflog gwell yn y sector preifat neu adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a thros y ffin.

Mae gan Gymru y dalent. Mae ein sectorau fintech a seiberddiogelwch llwyddiannus sy'n tyfu o hyd yn dangos hynny. Ond mae angen i ni wneud i waith y llywodraeth deimlo fel llwybr gyrfa cyffrous, ystyrlon a chredadwy i'r rhai sydd eisoes yma, a'r rhai yn y diaspora Cymreig a allai fod eisiau dychwelyd.

Ni all newid ddigwydd heb y bobl gywir gyda'r sgiliau a'r gallu cywir, y pwerau i wneud newid, yn gweithio mewn timau amlddisgyblaethol.

# Dylai llywodraeth nesaf Cymru:

## A. Dod â sgiliau modern i'r sector cyhoeddus

Mae trawsnewid gwasanaethau yn golygu trawsnewid sut mae cyflenwi'n gweithio.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- lansio ymgyrchoedd recriwtio proffil uchel i ddenu arbenigedd dylunio, peirianneg a rheoli cyflenwyr sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr
- troi'r ymarferwyr hyn yn dimau amlddisgyblaethol, grymus sy'n gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr polisi a gweithrediadau i ailgynllunio gwasanaethau
- ehangu a uwchraddio'r hyfforddiant a gynigir ar hyn o bryd drwy CDPS, gan alluogi gweision sifil i gael profiad ymarferol gyda dulliau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

Dylai pob gwas sifil ddeall sut mae gwasanaethau modern yn cael eu cynllunio. A dylai pob tîm cyflawni mawr gael pobl sydd â'r sgiliau i'w galluogi i gyflawni.

## B. Buddsoddi mewn llwybrau gyrfa a strwythurau cyflog

Dylai gweithio yn y llywodraeth fod yn ddewis deniadol i weithwyr proffesiynol digidol. I sicrhau hyn, mae angen llwybrau gyrfa clir a chyflog teg arnyn nhw. Dylai'r llywodraeth:

- greu llwybrau dilyniant gyrfa gweladwy ar gyfer rolau digidol a dylunio, o gynlluniau graddedig i uwch arweinyddiaeth
- ehangu a chefnogi cymunedau ymarfer ar draws pob proffesiwn digidol

- adolygu strwythurau cyflog y sector cyhoeddus i gystadlu â'r farchnad ehangach, gan gynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Nid oes rhaid i'r gwelliannau hyn olygu dim ond gwario mwy. Mae ein hargymhellion yn y bennod hon yn cynnig ffyrdd newydd o ariannu darpariaeth ddigidol – drwy leihau dyblygu, cronni buddsoddiad, a symud o gaffael tymor byr i allu tymor hir.

Lle mae cyrff cyhoeddus yn ei chael hi'n anodd recriwtio neu gadw talent, dylai Llywodraeth Cymru gamu i mewn – gan ddefnyddio ei rôl ganolog i gynnal timau digidol a rennir a all gefnogi sawl gwasanaeth ledled Cymru.

## C. Cyflymu creu talent digidol a gwreiddio arweinyddiaeth fodern

Ni all trawsnewid lwyddo heb arweinwyr sy'n ei ddeall. I redeg sefydliadau modern, mae angen arweinyddiaeth fodern arnom – wedi'i seilio ar y sgiliau a'r meddylfryd sy'n gwneud newid digidol yn bosibl. Nid yw bellach yn dderbyniol i uwch arweinwyr fod yn anghyfarwydd â thechnoleg ddigidol.

Dylid ystyried sgiliau arweinyddiaeth ddigidol yn greiddiol i reolaeth y sector cyhoeddus. Mae hynny'n golygu:

- cyflymu talent ddigidol brofiadol i rolau arweinyddiaeth ar draws y llywodraeth
- ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus gael arweinydd digidol ar ei dîm gweithredol ac aelod digidol anweithredol ar ei fwrdd erbyn 2027
- gwneud hyfforddiant dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr meddalwedd fodern yn orfodol i bob aelod o'r bwrdd, swyddogion gweithredol, a'r haenau uchaf o reolaeth sefydliadol

Dylai Prif Swyddog Digidol Cymru fod yn Bennaeth y Proffesiwn ar gyfer digidol a thechnoleg ar draws y sector cyhoeddus cyfan. Dylent gael mandad i ddod ag arweinyddiaeth ar draws sefydliadau ynghyd i ailgynllunio gwasanaethau trawsbynciol a chyflawni gwelliannau.

# Ailddyfeisio mecanweithiau cyllido a chyflenwi

3

Mae trawsnewid sut mae llywodraeth yn gweithio hefyd yn golygu trawsnewid sut mae'n ariannu ac yn cyflawni gwaith.

Ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, y model diofyn o hyd yw rhaglenni mawr, amser-gyfyngedig sy'n dibynnu ar achosion busnes aml-gam, lletchwith. Mae'r broses hon yn araf, yn ddrud ac yn seiliedig ar dipyn o ddyfalu. Mae'n gorfodi timau i ymrwymo ymlaen llaw i gynlluniau sefydlog yn hytrach na phrofi rhagdybiaethau peryglus neu ymateb i adborth o'r byd go iawn.

Mae prosiectau bach yn wynebu'r un craffu â rhaglenni mawr, gan ei gwneud hi'n anoddach dechrau'n fach a graddio'r hyn sy'n gweithio. Er mwyn osgoi anhyblygrwydd y rhaglenni mwy hyn, mae Cymru wedi dibynnu fwyfwy ar botiau cyllid grant tymor byr. Er mai nod y rhain yw annog arloesedd, mae'r cronfeydd yn aml yn rhy byr eu hoes i gynnal mentrau llwyddiannus neu cânt eu dargyfeirio i gynnal prosiectau sy'n methu, gan danseilio eu pwrpas gwreiddiol.

O gyfuno hyn â'r setliadau gweithredol o flwyddyn i flwyddyn, nid oes gan sefydliadau syniad clir sut olwg sydd ar eu cyllid cyffredinol. Mae gwelliant parhaus yn cael ei wahardd gan wariant mewn argyfwng a gor-ganolbwyntio ar “newydd” yn lle cynnal yr hyn sy’n bodoli eisoes.

Y canlyniadau? Costau sy'n chwyddo, systemau bregus, a chyflawni aflwyddiannus.

Yn hytrach na thywallt arian i fentrau untro, dylai llywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi mewn darpariaeth barhaus, sy'n cael ei gyrru gan ganlyniadau – wedi'i chefnogi gan fodelau ariannu sy'n gwobrwyo sefydlogrwydd, dysgu a gwerth hirdymor.

# Dylai llywodraeth nesaf Cymru:

## A. Ariannu timau nid prosiectau

Mae gwasanaethau modern angen gofal parhaus, nid prosiectau sy'n dechrau ac yna'n stopio.

Mae cyllido â therfyn amser yn annog meddwl tymor byr ac yn gwobrwyo allbynnau yn hytrach na chanlyniadau.

Mae gwasanaethau'n dirywio unwaith y bydd prosiectau'n dod i ben, ac mae'r systemau sy'n weddill yn aml yn mynd yn fregus, yn hen ffasiwn ac yn ddrud i'w cynnal.

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu Model Gweithredu Cynnyrch, gan ddisodli cyllid sy'n seiliedig ar brosiectau â thimau cynnyrch traws-swyddogaethol hirhoedlog sy'n berchen ar ganlyniadau cyhoeddus.

Dylai'r timau hyn:

- fod yn amlddisgyblaethol, gan gyfuno polisi, gweithrediadau, dylunio, technoleg, cyflawni ac ymchwil defnyddwyr
- cael y grym i wneud penderfyniadau gweithredol o fewn eu cyllidebau
- gweithio gan ailadrodd a gwella, gyda chylchoedd adborth tynn a lle i wella'n barhaus

Dylai llywodraeth nesaf Cymru a'r Prif Swyddog Digidol newydd ddechrau drwy sefydlu 4 neu 5 tîm cynnyrch effaith uchel yn y flwyddyn gyntaf – gan ganolbwyntio ar gydweithio traws-sector, a datrys problemau cyffredin y mae awdurdodau lleol, y GIG a llywodraeth ganolog yn eu hwynebu.

## B. Symleiddio a moderneiddio arferion caffael

Er mwyn cefnogi gwell darpariaeth, mae angen systemau caffael mwy ystwyth, modiwlaidd a chyfeillgar i fusnesau bach a chanolig ar Gymru.

Mae caffael cyfredol yn aml yn tybio y gallwn ragweld y dyfodol, gan gloi'r llywodraeth i mewn i gontractau anhyblyg, hirdymor gyda hyblygrwydd cyfyngedig. Mae hyn yn arafu arloesedd ac yn cynyddu dibyniaeth ar werthwyr mawr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- ailgynllunio polisi a diwylliant caffael i gefnogi contractau llai, sy'n cael eu gyrru gan ganlyniadau
- lleihau rhwystrau i gwmnïau bach a chreu lle ar gyfer cyflawni dipyn-yn-dipyn
- chwalu caffaeliadau monolithig mawr a lleihau dibyniaeth ar "gyflenwyr strategol"

Dylai hyn gael ei ategu gan God Ymarfer Technoleg, sy'n nodi llinellau coch sy'n:

- cyfyngu ar werth a hyd contractau
- rhoi terfyn ar estyniadau awtomatig a bwndelu gwasanaethau cysylltiedig
- gwneud defnyddio safonau agored a seilwaith cwmwl modern yn ofynnol

Ochr yn ochr â hynny, dylai'r llywodraeth adeiladu gwybodaeth gref am y farchnad i lywio penderfyniadau prynu ac ysgogi cadwyni cyflenwi lleol.

Nid effeithlonrwydd yn unig yw sail caffael craffach. Rhaid adeiladu economi dechnoleg Gymreig sy'n gwasanaethu lles y cyhoedd, yn cynnal sofraniaeth ddigidol, ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar werthwyr technoleg mawr echdynnol.

## C. Cyflwyno tryloywder radical

Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn y llywodraeth yn dibynnu ar ddeall nid yn unig beth sy'n cael ei gyflwyno, ond sut.

Mae dulliau atebolrwydd traddodiadol fel pwyllgorau'r Senedd, archwiliadau, cwestiynau ac atebion gweinidogol yn bwysig, ond yn aml yn araf ac yn edrych yn ôl. Yn y cyfamser, anaml y mae cyfathrebu o'r brig i lawr fel datganiadau i'r wasg a cherrig milltir yn dangos realiti anhrefnus y ddarpariaeth gyda'r holl iteru ac ailadrodd.

Dylai Llywodraeth Cymru arwain newid diwylliant tuag at dryloywder radical, lle mae timau'n gweithio'n agored ac yn rhannu gwybodaeth amser real am eu cynnydd, eu meddwl a'u prosesau wrth wneud penderfyniadau.

Mae hynny'n golygu:

- cyhoeddi data perfformiad a chyflenwi gwasanaethau yn agored
- rhannu sut y llywiwyd penderfyniadau defnyddwyr gan adborth gan ddefnyddwyr
- esbonio heriau, cyfaddawdau a dysgu wrth iddynt ddigwydd
- cyhoeddi llinellau caffael digidol a thechnoleg yn rheolaidd

Dylai'r newid hwn ddechrau gyda'r timau cynnyrch newydd a chael ei hyrwyddo o'r brig gan y Prif Weinidog, y Gweinidog dros Ddigidol, a Phrif Swyddog Digidol Cymru.

Mae deall sut mae seilwaith mewnol y llywodraeth yn gweithio a gwneud hynny'n weladwy yn hanfodol ar gyfer ailadeiladu hyder y cyhoedd ac atebolrwydd democrataidd.

# Nid yw'n ddigon i ail-enwi timau.

# Rhaid inni ailddyfeisio arweinyddiaeth, sgiliau a chyllid yn sylfaenol.

# Gwireddu hyn

# Sefydlu ein 'ffordd well' yn ymarferol.

Mae mabwysiadu'r dull a nodir yn yr adroddiad hwn yn llawn yn golygu newid sut mae Llywodraeth Cymru yn dylunio polisi ac yn darparu gwasanaethau.

I ddangos hyn, rydym wedi creu braslun o sut olwg allai fod ar y 100 a'r 1,000 diwrnod cyntaf mewn dau faes:

- Cyflwyno Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol newydd
- Diwygio'r system gynllunio drwy Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 newydd

Mae'r rhain yn sail ymarferol enghreifftiol i'n 'ffordd well' - ond gellid cymhwyso'r un model i flaenoriaethau eraill... o ddiwygio cyfiawnder i ddatgarboneiddio.

## Y model: ffordd well o gyflawni.

Mae ein dull yn seiliedig ar bum egwyddor:

- **Gosod y trywydd yn gynnar** – cyhoeddi datganiad gwleidyddol clir o’ch bwriad a’ch chanlyniadau disgwyliedig i greu 'Seren y Gogledd' y gall pawb ei dilyn.
- **Adeiladu timau grymus** – grwpiau amlddisgyblaethol ag arbenigedd polisi, arbenigedd gweithredu, arbenigedd digidol a rheng flaen, a hynny dan arweiniad uwch berchennog gwasanaeth sydd â mynediad uniongyrchol at weinidogion.
- **Dechrau gyda defnyddwyr** – mapio anghenion a phwyntiau poen i bobl a staff, yn hytrach na datrysiadau pendant anhyblyg.
- **Profi, dysgu, addasu** – cynnal arbrofion bach gyda chylch adborth cyflym, gan symud ymlaen gyda'r hyn sy'n gweithio a chael gwared ar yr hyn sydd ddim.
- **Gweithio yn agored** – rhannu gynnydd yn rheolaidd drwy ddiweddariadau, data agored a briffiau cyhoeddus i feithrin ymddiriedaeth ac atebolrwydd.

# Cyflwyno Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol newydd.

Newid radical i'r ffordd rydym yn darparu gofal a chymorth i bobl yng Nghymru - dyma un o heriau pennaf llywodraeth nesaf Cymru. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd rhagweledig o 10% a yng ngwariant gofal cymdeithasol awdurdodau lleol dim ond yn 2025, mae'r pwysau ar y gymysgedd bresennol o wasanaethau awdurdodau lleol a'r GIG eisoes yn ddifrifol iawn.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol dros y degawd nesaf, a fydd yn gweithredu'n llawn o 2029 ymlaen. Ond mae perygl i bethau newid wrth inni weithio ar gynllun anhyblyg, hirdymor. Ffordd well fyddai cyflymu'r ddarpariaeth drwy gyfuno bwriad gwleidyddol clir â phrofi, dysgu a diwygio ymarferol.

## Y 100 diwrnod cyntaf.

Yn ystod y misoedd cyntaf, dylai'r llywodraeth:

- **Gyhoeddi 'Seren y Gogledd' glir** – datganiad gwleidyddol sy'n nodi canlyniadau ac egwyddorion ar gyfer diwygio, gan adlewyrchu'r brys a sicrhau atebolrwydd.
- **Dod â thîm amlddisgyblaethol o 12–15 o bobl ynghyd** o bob rhan o'r llywodraeth, awdurdodau lleol, y GIG a darparwyr gofal cymdeithasol, wedi'u hategu gan arbenigwyr dylunio gwasanaethau, ymchwil defnyddwyr a thechnoleg. Yn hollbwysig, rhaid i'r tîm gynnwys pobl sydd â gwybodaeth rheng flaen ddofn am ddarparu gofal.
- **Dechrau gyda defnyddwyr, nid datrysiadau**, gan fapio teithiau o'r dechrau i'r diwedd drwy'r system gan ddefnyddio tystiolaeth bresennol gan Archwilio Cymru, y Swyddfa Gofal a Chymorth Genedlaethol, a'r grŵp arbenigol gwreiddiol.

## Gwireddu hyn

- **Lansio arbrofion bach, cyfyngedig** mewn un neu ddau o ardaloedd awdurdod lleol neu fwrdd iechyd. Gallai enghreifftiau o ragdybiaethau gynnwys:
    - Sut gellir rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn gyflymach?
    - Sut gall staff wneud ymweliadau cartref yn fwy effeithlon?
    - Sut gellir symleiddio trosglwyddo rhwng timau gofal cymdeithasol?
    - Sut gall pobl ddilyn a rheoli eu gofal yn well?
- **Gweithio yn agored**, cyhoeddi diweddariadau bob wythnos neu bob pythefnos, cynnal briffiau misol gyda gweinidogion, arbenigwyr a'r cyhoedd, a bod yn onest ynglŷn ag ansicrwydd a gwersi a ddysgwyd.

Erbyn diwedd y cyfnod 100 diwrnod, dylai'r tîm fod wedi: gwrthbrofi rhagdybiaethau peryglus, datgelu pwyntiau ffrithiant cudd, nodi rhwystrau rheoleiddio, cyflawni gwelliannau gweladwy i unigolion, a nodi cyfleoedd ar gyfer cynnydd pellach.

# Y 2 flynedd nesaf.

Dros y ddwy flynedd ganlynol, dylai'r ffocws fod ar ehangu'r hyn sy'n gweithio a sefydlu diwygiadau:

- **Meithrin nifer o dimau grymus**, pob un yn mynd i'r afael â mater penodol fel prinder gweithlu, modelau gwasanaeth newydd ar gyfer cymorth cartref, darparu hyfforddiant neu fabwysiadu technoleg.
- **Profi a mireinio modelau yn lleol**, yna ehangu rhai llwyddiannus ledled Cymru gan ddod â’r rhai sy'n methu â chyflawni i ben.
- **Meithrin tryloywder** drwy gyhoeddi data amser real fel nifer y bobl sy'n derbyn gofal, cleifion sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r GIG, a phwyntiau pwysau mewn pecynnau gofal. Dylai'r metrigau hyn ategu sesiynau 'dangos a dweud' misol gyda gweinidogion, staff rheng flaen a'r cyhoedd.

## Gwireddu hyn

- **Datblygu'r seilwaith digidol** i gefnogi diwygio, nid trwy brynu un system ond trwy fabwysiadu 'darnau bach, wedi'u cysylltu'n llac' — er enghraifft, defnyddio GOV.UK Notify ar gyfer cyfathrebu neu GOV.UK Pay ar gyfer taliadau.

Erbyn diwedd yr ail flwyddyn, dylai'r gwasanaeth ddangos gwelliannau mesuradwy o ran effeithlonrwydd, profiad defnyddwyr ac ymddiriedaeth y cyhoedd, gyda sylfaen o dimau grymus, gweithio agored a seilwaith digidol yn barod ar gyfer trawsnewid ehangach.

# Diwygio cynllunio lefel uchel.

Mae Cymru yn wynebu heriau mawr o ran tai, seilwaith, newid hinsawdd ac iechyd y cyhoedd. Ac eto mae'r system gynllunio — sydd wedi'i hangori mewn cynlluniau datblygu lleol — yn ei chael hi'n anodd ymateb. Mae llawer o gynlluniau lleol wedi dyddio, mae'r broses o'u diweddaru yn hir ac yn gymhleth, ac mae cymunedau a busnesau fel ei gilydd yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu. Mae anghydfod cynllunio proffil uchel diweddar yn Wrecsam yn dangos y risgiau'n glir.

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn darparu fframwaith cydsynio newydd ar gyfer prosiectau mawr. Ond heb ddiwygio ar lefel cynllun lleol, bydd Cymru yn parhau i gael ei rhwystro rhag diwallu ei hanghenion yn y dyfodol.

## Y 100 diwrnod cyntaf.

Yn ei misoedd cyntaf, dylai'r llywodraeth:

- **Gyhoeddi datganiad gwleidyddol o fwriad**, gan gysylltu diwygio cynllunio yn uniongyrchol â chyflenwi tai, seilwaith ynni, nodau hinsawdd a lleoedd iachach.

## Gwireddu hyn

- **Creu tîm diwygio cynllunio amlddisgyblaethol pwrpasol**, dan arweiniad uwch berchennog gwasanaeth, gan ddwyn ynghyd arbenigedd ym maes cynllunio, polisi, ymchwil defnyddwyr, dylunio gwasanaethau a chyflenwi digidol.
- **Ymgysylltu â chymunedau a datblygwyr** i ddeall anghenion a phwyntiau poen. Er enghraifft: Sut gall trigolion lunio eu cymdogaethau mewn ffordd ystyrlon? Beth sy'n gwneud y broses yn rhagweladwy i ddatblygwyr?
- **Cynnal arbrofion ymarferol** gydag un neu ddau awdurdod lleol i brofi:
    - adnabod safleoedd datblygu yn gyflymach
    - offer digidol newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd
    - ffyrdd o symleiddio a gwella safon cynlluniau
- **Gweithio yn agored**, cyhoeddi diweddariadau rheolaidd a chynnal briffiau gweinidogol misol i rannu dysgu a chynnydd.

Erbyn diwedd y cyfnod 100 diwrnod, dylai'r tîm fod wedi: gwrthbrofi rhagdybiaethau peryglus, datgelu rhwystrau cyfreithiol neu reoleiddiol, dod â phwyntiau ffrithiant cudd i'r amlwg, a datblygu prototeipiau i wella'r broses gynllunio.

# Y 2 flynedd nesaf.

Dros y ddwy flynedd ganlynol, dylai diwygio ddyfnhau a lledaenu:

- **Datblygu nifer o dimau**, pob un yn arbenigo mewn agweddau ar ddiwygio megis offer ymgysylltu cymunedol, digideiddio cynlluniau, neu gyflwyniadau gan ddatblygwyr.
- **Datblygu gwasanaethau digidol a rennir** – y “seilwaith digidol” – ar gyfer pob awdurdod lleol, megis templedi y gellir eu hailddefnyddio, safonau data cyffredin a llwyfannau integredig.

## Gwireddu hyn

- **Cyhoeddi data perfformiad agored** sy'n dangos pa mor gyflym ac effeithiol y mae cynlluniau lleol yn cael eu cynhyrchu.
- **Cyflwyno modelau llwyddiannus ledled Cymru**, fel y gall pob awdurdod lleol gynhyrchu cynlluniau lleol amserol ac addasadwy.

Erbyn blwyddyn dau, dylai Cymru weld cynllunio lleol mwy ymatebol, cyfranogiad haws gan y gymuned, a mwy o eglurder i ddatblygwyr – a hynny i gyd wedi'i ategu gan seilwaith digidol modern ac adrodd tryloyw.

# Bwrw ymlaen yn ehangach.

Nid yw'r model cyflawni hwn wedi'i gyfyngu i ofal na chynllunio. Gallai gefnogi trawsnewid mewn unrhyw faes y mae llywodraeth nesaf Cymru yn ei flaenoriaethu – o gyfiawnder ieuenctid i fudd-daliadau. Yr hyn sy'n bwysig yw cysondeb: gosod cyfeiriad, grymuso timau, dechrau gyda defnyddwyr, profi ac addasu, a gweithio yn agored.

# Galwad i weithredu

# Ni all Cymru fforddio syrthio ymhellach ar ei hôl hi.

Mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dal yn ôl gan systemau hen ffasiwn, arweinyddiaeth dameidiog ac atebion tymor byr. Mae’n rhwystredig. Mae’n erydu ffydd, hyder ac ymddiriedaeth pobl. Ac mae potensial ein cenedl yn cael ei wastraffu.

Nid oes rhaid i bethau fod fel hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi llwybr gwell: gwasanaethau cyhoeddus modern, sy'n canolbwyntio ar bobl, wedi'u cynllunio ar gyfer y byd go iawn. Gwasanaethau wedi'u llunio gan dystiolaeth, wedi'u darparu gan dimau grymus, ac wedi'u gwella'n barhaus, nid unwaith bob degawd.

I wireddu hyn, rhaid i lywodraeth nesaf Cymru weithredu gyda dewrder. Nid ymhen pedair blynedd – nawr.

Mae angen arnom:

- arweinyddiaeth feiddgar gyda mandad clir ar gyfer newid
- buddsoddi hirdymor mewn pobl a sgiliau
- modelau ariannu sy'n cefnogi dysgu, nid etifeddiaeth

Mae hyn yn fwy na diwygio digidol. Dyma sut rydym yn adeiladu Cymru fwy gwydn ac ymatebol – un sy'n gweithio i bawb, am genedlaethau i ddod.

**Mae'r dewis yn glir. Aros yn sownd. Neu arwain y ffordd.**

# Darllen pellach

Mae'r adroddiad hwn yn nodi llwybr at wasanaethau cyhoeddus gwell, wedi'i seilio ar ddegawdau o brofiad ac arfer. I'r rhai sy'n barod i gymryd y cam nesaf, rydym wedi paratoi adnoddau hanfodol i gefnogi gweithredu’n ymarferol.

Mae'r llyfrau, yr adroddiadau a'r gwefannau hyn yn cynnig canllawiau clir ar ddylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, cyflawni ystwyth, gweithio agored, ac adeiladu seilwaith digidol modern.

## Darllen pellach

**System Reboot (2018)**

*Lee Waters*

Mae'r adroddiad dylanwadol hwn yn amlinellu'r angen brys am drawsnewid systemig o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gan osod y cefndir ar gyfer ein gwaith, mae'n tynnu sylw at heriau hirhoedlog ac yn cyflwyno'r achos dros ddull beiddgar, newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

https://transform.wales/link/system-reboot

**Safon Gwasanaethau Digidol Cymru**

*Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Llywodraeth Cymru*

Mae Safon Gwasanaethau Digidol Cymru yn darparu canllawiau ymarferol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ar gyfer dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wir yn diwallu anghenion defnyddwyr. Mae'n ymgorffori'r egwyddorion 'ffordd well' rydyn ni wedi'u hamlinellu, gan gynnig fframwaith pendant i dimau ledled Cymru adeiladu gwasanaethau sy'n symlach, yn gliriach ac yn gyflymach.

https://transform.wales/link/safon-digidol-cymru

**The Radical How**

*Andrew Greenway a Tom Loosemore*

Mae'r llyfr hwn yn lasbrint hynod ddiddorol ar gyfer cyflawni trawsnewid o fewn llywodraeth. Mae'n cynnig canllawiau ymarferol ar feddylfryd, dulliau a heriau trawsnewid digidol, gan lywio ein pwyslais ar symud y tu hwnt i atebion tymor byr a sicrhau ffyrdd newydd o feddwl a gwneud.

https://transform.wales/link/radical-how

**Digital Transformation at Scale**

*Andrew Greenway, Tom Loosemore, Mike Bracken a Ben Terrett*

Gan adeiladu ar brofiad helaeth o Wasanaeth Digidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r llyfr hwn yn cynnig cipolwg hollbwysig ar sut y gellir rheoli trawsnewid digidol mawr ar draws sefydliadau mawr a chymhleth. Mae'n cefnogi ein galwadau am arweinyddiaeth feiddgar, timau amlddisgyblaethol, a ffocws ar gyflawni parhaus, ac yn dangos sut mae'r egwyddorion hyn yn trosi'n newid systemig ar raddfa fawr.

ISBN: 978-1-9130193-9-6

https://transform.wales/link/digital-transformation

# Darllen pellach

**The agile comms handbook**
*Giles Turnbull*

Mae cyfathrebu clir ac agored yn hanfodol ar gyfer trawsnewid digidol llwyddiannus — yn enwedig wrth weithio yn agored. Mae'r llawlyfr hwn yn cynnig cyngor ymarferol ar sut i gyfathrebu'n dryloyw, gan ganiatáu ailadrodd a gwella a chefnogi ein galwad am dryloywder radical a helpu i adeiladu diwylliant gwasanaeth cyhoeddus mwy agored.

ISBN: 978-1-7399422-3-6
https://transform.wales/link/agile-comms

**Ysgrifennu Triawd: Dylunio cynnwys dwyieithog ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr**
*Joanna Goodwin, Adrián Ortega, Ceri Brunelli-Williams, Heledd Quaeck, a Nia Campbell*
Mae'r canllaw ymarferol hwn i ysgrifennu ar y cyd yn cefnogi ein hegwyddorion o weithio mewn tîm agored ac amlddisgyblaethol. Mae'n dangos sut y gall cydweithio strwythuredig gynhyrchu cynnwys dwyieithog clir sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan arwain at gyfathrebu a chanlyniadau gwell mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

ISBN: 978-1-446782 2-4-8
https://transform.wales/link/ysgrifennu-triawd

**Platformland**
*Richard Pope*

Mae'r meddwl dylanwadol hwn yn archwilio'r cysyniad o 'lwyfannau' fel seilwaith digidol sylfaenol, gan symud y tu hwnt i wasanaethau unigol i greu cydrannau y gellir eu hailddefnyddio a galluoedd a rennir ar draws y llywodraeth. Mae'n sail i'n hargymhellion ar gyfer trwsio 'seilwaith' y llywodraeth a symleiddio caffael, gan alluogi gwladwriaeth ddigidol fwy integredig ac effeithlon.

ISBN: 978-1-9167491-1-5
https://transform.wales/link/platformland

## Darllen pellach

**The Service Organization**

*Kate Tarling*

Mae'r llyfr hwn yn cynnig canllawiau hanfodol ar sut y gellir strwythuro a arwain sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau modern, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, yn effeithiol. Mae'n darparu fframweithiau ymarferol ar gyfer adeiladu diwylliant sefydliadol sy'n cefnogi dylunio a darparu gwasanaethau'n barhaus, ac yn llywio'n uniongyrchol ein hargymhellion ar arweinyddiaeth, timau amlddisgyblaethol, a ffyrdd gwell o weithio.

ISBN 978-1-913019-76-1
https://transform.wales/link/the-service-organization

**A blueprint for a modern digital government**

*Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg llywodraeth y Deyrnas Unedig*

Mae'r glasbrint hwn yn nodi gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth ystwyth, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr - mae'n atseinio'n ddwfn â'n hargymhellion. Mae'n ategu pwysigrwydd seilwaith cyhoeddus digidol integredig, safonau agored, a ffocws ar ganlyniadau, ac yn darparu cyd-destun strategol ehangach ar gyfer y camau gweithredu a gynigir yn ein hadroddiad.

https://transform.wales/link/modern-digital-gov-blueprint

**Foundations Of The Digital State independent report for Scottish Government**

*Gordon Guthrie*

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer adeiladu gwladwriaeth ddigidol fodern, sy'n arbennig o berthnasol mewn cyd-destun datganoledig. Mae ei ffocws ar gydrannau sylfaenol, galluoedd a buddsoddiadau strategol yn darparu cyfatebiaethau gwerthfawr ac yn atgyfnerthu'r newidiadau systemig yr ydym yn dadlau drostynt: arweinyddiaeth, sgiliau a chyllid i alluogi trawsnewid digidol cynaliadwy yng Nghymru.

ISBN: 978-1-0685451-0-8
https://transform.wales/link/digital-state-foundations

# Ynglŷn â'r awduron

## Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Ann Kempster, Dafydd Vaughan, Jo Carter a Nia Campbell.

Casgliad o arbenigwyr trawsnewid digidol a dylunio ydym ni, sydd â degawdau o brofiad o arwain newid ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Rydym wedi helpu timau i gyflawni newid ar bob lefel, ac rydym yn credu bod gan Gymru'r potensial i arwain, nid dim ond dal i fyny.

Yn gynharach eleni, fe wnaethom lansio Cymru Ddigidol, cymuned gynyddol o ymarferwyr ac arweinwyr y sector cyhoeddus sy'n gweithio i ailystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu.

Rydym am symud y tu hwnt i atebion tymor byr i ddylunio gwasanaethau cyhoeddus mwy gwydn, ymatebol a dibynadwy sydd wir yn diwallu anghenion cymunedau Cymru.

### Ann Kempster

Mae Ann yn rhedeg cwmni ymgynghori bach sy'n gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i newid eu ffordd o weithio yn radical.

Mae hi'n arweinydd digidol profiadol sydd wedi treulio'r 20 mlynedd diwethaf yn adeiladu ac arwain timau digidol sy'n darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl yn llwyddiannus. Hi oedd un o sylfaenwyr y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) - sefydliad a gynlluniwyd i helpu i adeiladu gwasanaethau cyhoeddus gwell yng Nghymru trwy ffyrdd digidol o weithio.

### Dafydd Vaughan

Mae Dafydd yn arbenigwr technoleg, gyda phrofiad o arwain trawsnewidiadau digidol cymhleth mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae ei arbenigedd mewn trawsnewid TG cymhleth, cefnogi timau technoleg wrth iddynt adeiladu gwasanaethau

digidol newydd, a hyfforddi swyddogion gweithredol i osod yr amodau ar gyfer llwyddiant.

Roedd yn un o sylfaenwyr Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig - a oedd yn chwyldro o ran sut mae'r llywodraeth yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, trwy ffyrdd digidol modern o weithio.

Ar hyn o bryd mae'n Brif Swyddog Technoleg ar gyfer cwmni ymgynghori digidol byd-eang ac yn gyfarwyddwr anweithredol yn GIG Cymru.

## Jo Carter

Mae Jo yn ddylunydd gwasanaethau angerddol gyda ffocws cryf ar lywodraeth, tai cymdeithasol, a'r sector elusennol. Hi yw prif drefnydd 'anghynhadledd' GovCamp Cymru.

Ar ôl degawd mewn llywodraeth leol, sefydlodd Jo gwmni Service Works i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy ddylunio. Mae hi'n hyfforddwr hyfforddedig, yn Ddylunydd Gwasanaeth Meistr achrededig, ac mae hefyd yn gweithio fel ymgynghorydd, hyfforddwr a hwylusydd.

Dros y blynyddoedd, mae Jo wedi gweithio gyda sefydliadau gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Archwilio Cymru, y Rheoleiddiwr Pensiynau, a Llywodraeth Cymru.

## Nia Campbell

Mae Nia yn ddylunydd a strategydd gyda dros ddegawd o brofiad o lunio gwasanaethau cyhoeddus cynhwysol ar draws y llywodraeth, iechyd a gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector. Mae hi wedi arwain trawsnewidiad cynnwys a gwasanaethau, wedi cynghori ar ddylunio dwyieithog yn y llywodraeth ganolog, ac wedi datblygu strategaethau sefydliadol sy'n cryfhau timau yn ogystal â gwasanaethau.

Ochr yn ochr â'i gwaith proffesiynol, mae Nia yn drefnydd cymunedol gweithgar. Mae hi'n creu mannau i ymarferwyr digidol gysylltu, rhannu syniadau a meithrin hyder. Mae hi wedi ymrwymo i ffyrdd agored a chydweithredol o weithio sy'n gadael gwerth parhaol y tu hwnt i brosiectau unigol.

# Diolch a chydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar iawn i nifer o bobl y mae eu mewnwelediadau a'u hadborth wedi helpu i lunio'r adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys gweision cyhoeddus presennol a chyn-weision cyhoeddus, gweinidogion, academyddion, arbenigwyr yn y diwydiant, a phobl sy’n cadw llygad ar y Senedd.

Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar etifeddiaeth gyfoethog o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus digidol ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Mae cerrig milltir pwysig yn cynnwys:

- Creu **UKGovCamp** gan Jeremy Gould yn 2007, a ddaeth ag ymarferwyr digidol o bob cwr o'r sector cyhoeddus ynghyd am y tro cyntaf
- Lansio **Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (GDS)** yn 2011, a helpodd i ailddiffinio sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynllunio a'u darparu
- Sefydlu **GovCamp Cymru** yn 2014 gan Jo Carter ac Esko Reinikainen, platfform hanfodol ar gyfer syniadau a chydweithio yng Nghymru
- Gwaith Lee Waters, Sally Meecham, Simon Renault ac Ann Kempster i sefydlu'r **Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS)** yng Nghymru yn 2020

Rhoddodd yr ymdrechion hyn – a’r bobl a’u harweiniodd – yr hyder, y fewnwelediad a’r ysbrydoliaeth inni gredu bod gwasanaethau cyhoeddus gwell yn bosibl.

Mae'n bwysig hefyd gydnabod y gweision cyhoeddus ymroddedig sy'n byw, yn anadlu ac yn gweithio yn y ffyrdd modern hyn bob dydd - yn aml heb gydnabyddiaeth na chefnogaeth.

Hoffem hefyd gydnabod yr ysgrifennu a'r meddwl sydd wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar yr adroddiad hwn:

- **The Radical How** gan Andrew Greenway a Tom Loosemore – ar sut y gall y dulliau hyn drawsnewid llywodraeth yn radical
- **Cynllun ar gyfer Llywodraeth Ddigidol Fodern** gan Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg y Deyrnas Unedig – yn amlinellu dyfodol llywodraeth ystwyth, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr
- **System Reboot** gan Lee Waters (2018) – sy'n nodi'r angen brys am drawsnewid yn y sector cyhoeddus yng Nghymru
- Gwaith parhaus **Jennifer Pahlka** a **Chanolfan Niskanen** – sy'n dangos sut mae'r syniadau hyn yn cefnogi capasiti digidol a diwygio yn llywodraethau taleithiau'r Unol Daleithiau

I bawb sydd wedi cyfrannu at y mudiad hwn: diolch.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'ch stori chi hefyd.

**Trawsnewid Cymru**

www.trawsnewid.cymru